**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **29 MEHEFIN 2009** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 MAI 2009** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o'r 1$^{af}$ Mawrth 2009 hyd at 31$^{ain}$ Mai 2009.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y 3 mis hyd at 31$^{ain}$ Mai 2009:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau ffurfiol am Archwiliadau a Gynlluniwyd | 18 |
| Archwiliad Ymatebol | 1 |
| Adroddiadau eraill (memoranda ayb) | 9 |
| Archwiliadau Dilyniant | 3 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31ain Mai 2009, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| ADRAN | GWASANAETH | TEITL | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Cyllid | Cyfrifeg | Fformiwla Cyllido Ysgolion | B | Atodiad 1 |
| Cyllid | Refeniw | Systemau derbyn arian | B | Atodiad 2 |
| Darparu a Hamdden | Gofal Cymunedol | Rheolaeth Cyflogau Gofalwyr Cartref | B | Atodiad 3 |
| Darparu a Hamdden | Preswyl a Dydd | Canolfannau Dydd a Gweithdai Anabledd Dysgu Ardal Arfon | B | Atodiad 4 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | Democratiaeth | Treuliau Aelodau | B | Atodiad 5 |
| Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | Rheolaethau Trwyddedu Meddalwedd – Corfforaethol | B | Atodiad 6 |
| Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | Rhannu Gwybodaeth | B | Atodiad 7 |
| Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | Rheolaethau Trwyddedu Meddalwedd – Ysgolion | C | Atodiad 8 |
| Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | Rheolaeth Defnyddwyr a Chymwysiadau Citrix | B | Atodiad 9 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Ar draws yr adran | Grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol | B | Atodiad 10 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Oedolion | Rheolaeth Cytundeb Prydau yn y Cartref | C | Atodiad 11 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Oedolion | Cofrestr Anabledd Dysgu - Rheolaethau Sicrhau Cyflawnder | B | Atodiad 12 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Oedolion | Anabledd Corff - Cytundeb Gwasanaeth Cyd-Storfa | C | Atodiad 13 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Plant a Theuluoedd | Lleoliadau Plant All-Sirol | B | Atodiad 14 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Gwaith Priffyrdd | Defnydd Is-Gontractwyr, Uned Darparu Priffyrdd | C | Atodiad 15 |
| Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | "Siwrne Saff" | B | Atodiad 16 |

| ADRAN | GWASANAETH | TEITL | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | Incwm Ffioedd Trafnidiaeth | B | Atodiad 17 |
| Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | Trwyddedau i Osod Adeiladwaith ar y Stryd | C | Atodiad 18 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn “A” Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a’u bod wedi eu dilyn.

Barn “B” Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn “C” Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn “CH” Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â’r uchod, cynhaliwyd yr archwiliad isod. Yn yr achos yma, cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn:

- Cofrestr Contractau Corfforaethol
- Rhestrau Contractwyr Cymeradwy
- Contractau: Arian Dargadw
- Rheoli Contractau: Adrodd ar Or-wariant
- Contractau - Gwirio Eithriadau
- TGCh: Gwaith Gwrth-Dwyll
- Trosolwg o Deithio Cyffredinol
- Canolfan Gyswllt Galw Gwynedd
- System Integredig Plant

## 2.3 Archwiliadau Dilyniant

2.3.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL YR ADRODDIAD | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Iechyd a Diogelwch Gweithwyr Llaw | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Gwaith Priffyrdd | **Derbyniol** |
| Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru | | | **Derbyniol** |
| Rheoli Cytundebau Caffael Corfforaethol | Corfforaethol | | **Derbyniol** |

2.3.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.3.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2009**
Cyfrifiaduron Arunig
System Dyledwyr - Trefniadau Atal Biliau
Rhoddion i Staff Cartrefi Preswyl
Defnydd Is-Gontractwyr

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2009**
Trwyddedau Adeiladwaith ar y Stryd
Rheolaeth Cytundeb Prydau yn y Cartref

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2009**
Trwyddedau Meddalwedd mewn Ysgolion

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2010**
Cytundeb Gwasanaeth Cyd-Storfa

## 2.4 Archwiliad Ymatebol

2.4.1 Cwblhawyd ymchwiliad ymatebol yn sgil y darganfyddiad fod aelodau'r Cyngor wedi derbyn gordaliad o lwfansau teithio. Mae crynodeb gweithredol yr adroddiad archwiliad a gynhyrchwyd wedi ei gynnwys fel Atodiad 19.

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1[af] Mehefin 2009.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Effeithlonrwydd y Strwythr Codio *(Cyllid)*
- Trosglwyddiadau o systemau ariannol ysgolion *(Cyllid)*
- Cynnal Tiroedd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Meddalwedd Atal "Malware" *(Gofal Cwsmer)*
- Rheolaeth Cyfluniad *(Gofal Cwsmer)*
- Rheolaeth Gyllidebol mewn Ysgolion Cynradd *(Addysg)*
- Anabledd Dysgu - Gofal Dydd Preifat *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Pryniant Bwyd a Rheolaeth Stoc *(Darparu a Hamdden)*
- Rheolaeth Corfforaethol - Trefniadau Awdurdodi Swyddogion *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Cychwyn, Addasiadau a Therfynu Gweithwyr *(Cyllid)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Cyfrannu at Ddarparu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol *(Corfforaethol)*
- Rheoli Contractau - Ymweliadau Safle *(Corfforaethol)*
- Rheoli Contractau - Bondiau Perfformiad *(Corfforaethol)*
- Telerau Contractau a Dogfennau Tendro *(Corfforaethol)*
- Llwybrau Cyhoeddus *(Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd))*
- Grant Gwella Adeiladau Ysgolion *(Addysg)*
- Casglu Data Gwasanaethau Cymdeithasol at bwrpasau Rheoli Perfformiad *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Allbwn Prosiectau Ymchwil *(Strategol a Gwella)*
- Taliadau Dewisol *(Cyllid)*
- Treth Cyngor - Eithriadau, Tai gwag ayb *(Cyllid)*
- Trefniadau Yswiriant *(Cyllid)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf *(Economi a Chymuned)*
- Cynllunio - Gorfodaeth *(Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd))*
- Dyletswyddau Llywodraethwyr (Ysgolion Cynradd) *(Addysg)*
- Gosodiadau Ysgolion Cynradd *(Addysg)*
- Canolfan Hamdden Arfon, Caernarfon *(Darparu a Hamdden)*
- Canolfan Denis Arfon *(Darparu a Hamdden)*
- Canolfan Hamdden Penllyn, Y Bala *(Darparu a Hamdden)*
- Rheolaeth Cronfeydd Answyddogol *(Darparu a Hamdden)*
- Eiddo Gwasanaethau Darparu - Comisiynu Gwaith *(Darparu a Hamdden)*
- Plant - Lwfansau Mabwysiadu, Gorchymyn Preswyl a Gwarcheidiaeth Arbennig *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Iechyd a Diogelwch Gweithwyr Gofal *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Gweinyddiaeth a Rheolaeth Hyfforddiant Gwynedd *(Economi a Chymuned)*
- Diogelwch Asedau a Storfeydd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Rheolaeth Fflyd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Contractau SBIG *(Corfforaethol)*
- Cynllun Gorsaf Rheilffordd Bangor *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*
- Cynnal a Chadw Tai Cyngor - Llif Gwaith *(Tai)*
- Dilyniant - System Dyledwyr - Trefniadau Atal Biliau *(Cyllid)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1[af] Mawrth 2009 i 31[ain] Mai 2009, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

## FFORMIWLA CYLLIDO YSGOLION
### Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod y ffactorau a ddefnyddir i gyfrifo fformiwla cyllido ysgolion yn rhai cyfredol, realistig a chywir a bod y fformiwla wedi cael ei chyfrifo'n gywir yn ogystal â gwirio bod y grant ôl-16 y Cynulliad wedi ei ddyrannu'n gywir i'r ysgolion uwchradd perthnasol.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio sampl o ffactorau a ddefnyddiwyd i gyfrifo fformiwla cyllido ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yn 2007/08 a 2008/09 ar gyfer y meysydd lle roedd y dyraniadau mwyaf a rhai ffactorau eraill yn y sampl. Yn ogystal, archwilio sut dyrannwyd allan Grant Addysg ôl-16 y Cynulliad ar gyfer blynyddoedd 2007/08 a 2008/09.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 5 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 3 o'r meysydd hyn.

Gwelwyd fod y fformiwla wedi ei gyfrifo'n gywir. Fodd bynnag, oedd y daflen 'Eglurhad o Ddyraniad Ysgolion Cynradd' yn anodd i'w ddilyn a deall ac nid oedd tystiolaeth bod gwiriadau hap yn cymryd lle ar gywirdeb cyfrifiadau'r fformiwla.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Fformiwla Cyllido Ysgolion gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Angen cynnwys y wybodaeth angenrheidiol o fewn y daflen 'Eglurhad o Ddyraniad Ysgolion Cynradd' neu ei symleiddio fel bod athrawon sydd heb addysg cyfrifeg yn gallu defnyddio'r wybodaeth er mwyn sicrhau bod eu hysgolion wedi derbyn y dyraniad cywir.**
- **Dylid sicrhau bod gwiriadau hap ar gyfrifiadau dyraniad ysgolion yn cymryd lle a bod tystiolaeth o beth sydd wedi ei wirio yn cael ei gofnodi a'i arwyddo gan y swyddog perthnasol.**

# SYSTEM DERBYN ARIAN
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod rheolaethau priodol yn bodoli ar gyfer derbyn taliadau yn swyddfeydd arian y Cyngor, ynghyd â thaliadau dros y we a'r ffôn. Yn ogystal, sicrhau bod trefn briodol ar gyfer cysoni'r incwm disgwyliedig fel yr ymddengys yn systemau'r Cyngor gyda'r incwm a dderbyniwyd yn y banc.

Cwmpas yr Archwiliad

Cynnal trafodaethau gyda'r swyddogion perthnasol ac yna profi, gwerthuso a dilysu'r trefniadau a'r prosesau mewn lle.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 18 o feysydd rheolaeth mewnol. Dangosodd y profion hyn fod rheolaethau da yn bodoli mewn 14 o'r meysydd, 3 yn foddhaol ac 1 yn wan.

Gwelwyd fod trefniadau priodol o dderbyn taliadau gan y cyhoedd ac yna eu cofnodi yn system derbyn arian y Cyngor. Yn ogystal gwelwyd fod y drefn o gysoni'r incwm disgwyliedig gyda'r datganiadau banc yn briodol a byddai unrhyw wahaniaethau yn cael eu hadnabod.

Dylid cynnal gwiriadau ar ddilysrwydd yr anfonebau a dderbyniwyd gan fanc y Cyngor sydd yn manylu ar gostau derbyn taliadau gyda cherdyn debyd yn y swyddfeydd arian. Yn ogystal amlygwyd bod amheuaeth ynglyn â cywirdeb yr anfonebau ar gyfer costau taliadau anniogel, felly dylid cynnal trafodaethau gyda swyddogion y banc a darparwr y meddalwedd er mwyn darganfod gwraidd y broblem.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn system derbyn arian y Cyngor, gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae rhai o'r argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Prif Ariannwr adolygu'r adroddiadau dyddiol sydd yn manylu ar yr ad-daliadau a gwblhawyd yn ystod y dydd er mwyn sicrhau nad oes gorddefnydd o'r dull.**
- **Dylid parhau i gysylltu gyda'r banc neu ddarparwr y meddalwedd er mwyn datrys y broblem ynghylch costau taliadau anniogel, a bod y Cyngor yn derbyn yr ad-daliad priodol gan y banc.**
- **Dylai'r Uwch Dechnegydd Rheolaeth gytuno gyda'r Prif Ariannwr ar drefn i'w hysbysu o beth yw cyfanswm gwerth yr incwm a dderbyniwyd yn ystod y mis er mwyn cysoni gydag anfoneb y banc.**
- **Dylai'r Rheolwr Cyfleusterau Swyddfa drefnu fod y systemau diogelwch o fewn y swyddfeydd arian yn cael eu profi'n gyfnodol.**

# RHEOLAETH CYFLOGAU GOFALWYR CARTREF
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Mae'r archwiliad yn canolbwyntio ar wirio gweithrediad y rheolaethau disgwyliedig yn y drefn o gwblhau a mewnbynnu taflenni amser i'r system Gofal Cartref.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio taflenni amser a'r rheolaeth dros fewnbynnu a throsglwyddo'r wybodaeth i'r system gyflogau a'r bâs-data Cyfrifon Gofal Cartref.

Prif Ddarganfyddiadau
Mae'r drefn bresennol o dalu Gofalwyr Cartref wedi bod mewn lle ers rhai blynyddoedd. Er hyn, mae diffygion wedi eu hamlygu yn y drefn, yn enwedig pan mae angen i berson cymwys lofnodi'r taflenni costau teithio. Gwelwyd hefyd bod angen sicrhau bod gwiriad CRB yn cael ei yrru yn brydlon er mwyn sicrhau y bydd yn cael ei ddychwelyd cyn gynted â phosib. Yn ogystal mae angen sicrhau caiff yr adroddiad eithriad sy'n dangos y gwahaniaeth rhwng y gwir oriau ac oriau ar y cynllun gofal ei redeg yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr oriau cywir yn cael eu hawlio.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Rheolaeth Cyflogau Gofalwyr Cartref gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai pob ymdrech gael ei wneud i sicrhau fod y client yn llofnodi'r daflen hawlio i gadarnhau eu bod wedi derbyn y gwasanaeth, neu fod rheswm dilys dros beidio cael llofnod wedi ei nodi ar y daflen.**
- **Dylai ardaloedd Arfon a Dwyfor sicrhau bod pob taflen amser gyda llofnod swyddogion awdurdodedig yn cadarnhau eu bod wedi eu gwirio ac yn cymeradwyo'r daflen. Dylai bod trefn mewn lle fel bod swyddog arall ar gael mewn achos o salwch neu absenoldeb y swyddog awdurdodedig.**
- **Dylid sicrhau bod yr adroddiad eithriad yn cael ei redeg yn aml e.e. bob pythefnos neu bob tair wythnos.**
- **Mae angen llofnod gan swyddog perthnasol ar bob cais am deithio a chynhaliaeth i gadarnhau eu bod wedi eu harchwilio a'u hardystio.**
- **Dylai bod y Rheolwr Llinell (Goruchwyliwr) yn arwyddo yn y rhan archwilio a'r Is-Reolwr Ardal yn arwyddo i ardystio'r ceisiadau.**
- **Dylid nodi unrhyw gamgymeriadau sydd wedi eu hamlygu ar y taflenni cyfansymiau swp er mwyn sicrhau eu bod yn gywir ac yn cyd-fynd â beth sydd ar yr adroddiad.**

# CANOLFANNAU DYDD A GWEITHDAI ANABLEDD DYSGU
# ARDAL ARFON
## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod rheolaeth fewnol digonol yn nhrefniadau'r Canolfannau Dydd a Gweithdai Anabledd Dysgu yn Ardal Arfon.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd prif feysydd ariannol y sefydliadau yn ôl y cofnodion yng nghyfriflyfr 2007/08 yn ogystal a`r rheoliadau perthnasol i Iechyd a Diogelwch. Dewiswyd y sampl archwilio yn ôl dadansoddiad o bennawdau gwariant ac incwm fesul sefydliad a chymharu ar draws sefydliadau, er mwyn canolbwyntio ar yr agweddau priodol mewn sefydliadau unigol ac mewn gwahanol ardaloedd.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 54 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau da yn bodoli mewn 41 o`r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn rheolaeth canolfannau dydd a gweithdai anabledd dysgu ardal Arfon gan fod rheolaethau mewn lle ond bod rhai agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r argymhellion a ddynodir yn y cynllun gweithredu ac angen sylw buan fel a ganlyn:**

- **Dylai'r cyfradd cyflog a delir i weithwyr gael ei adolygu a'i gymeradwyo yn flynyddol.**
- **Dylai'r gofrestr clientau sydd ym Melin Glanrafon naill ai gael ei yrru drwy e-bost gan swyddog awdurdodedig neu ei yrru trwy'r post wedi ei arwyddo gan swyddog awdurdodedig at y Swyddog Gweinyddol yng Nghanolfan Segontiwm.**
- **Dylid sicrhau fod taflenni y llyfr llog yn cael ei wirio yn drylwyr a'i arwyddo i gadarnhau fod gwiriad wedi ei wneud. Dylid gwirio yn rheolaidd fod y milltiroedd yn cysoni gyda'r milltiroedd ar y cerbyd.**
- **Dylai Rheolwr Ardal Arfon drefnu ynghyd â Rheolwyr Achos Arfon a Gwasnaethau Cymdeithasol fod asesiad codi tâl ar gludiant yn cael ei gynnal ar gyfer pobl defnyddiwr gwasanaeth fel bod cyfraniadau yn deg ac yn gyson ar draws y Sir.**
- **Dylid sicrhau fod y cyfrif imprest banc mewn credyd o hyd, ac yn dilyn i fyny unrhyw cais sydd heb ei dalu cyn gynted â phosibl**
- **Dylid ystyried marcio'r eiddo trwy defnyddio 'selectmark'.**
- **Dylid trefnu fod staff yn derbyn gwiriad heddlu yn rheolaidd.**

# TREULIAU AELODAU
## Democratiaeth a Chyfreithiol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod y taliadau am dreuliau i Aelodau yn gywir a phriodol ac yn unol â rheolau'r Cyngor ynghyd â sicrhau fod rheolaethau priodol yn bodoli dros gyfarpar a roddir i Aelodau.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r cyfarwyddiadau a roddir i Aelodau ar gyfer hawlio treuliau a chadarnhau eu bod yn eglur a hawdd eu dilyn. Dewis sampl o geisiadau costau teithio a chynhaliaeth a chadarnhau bod y ffurflenni wedi cael eu cwblhau a'u hawdurdodi'n briodol a bod cofnodion y systemau ariannol yn gywir. Adolygu'r rhestr cyfarpar T.G. & Ch. presennol i ddarganfod pa Aelodau / cyn-Aelodau sydd â chyfarpar, a gwirio os gwneir defnydd priodol o'r cyfarpar hwnnw.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 23 rheolaeth fewnol. Dangosydd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn 8 o'r meysydd hyn.

***Gwelwyd fod amryfusedd wedi codi o safbwynt y graddfeydd a ddefnyddir er mwyn talu costau teithio. Mae'r mater yma wedi bod yn destun archwiliad ar wahân, a nid yw wedi ei gwmpasu yn yr adroddiad yma a'i farn.***

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn y broses o weinyddu Treuliau Aelodau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid atgoffa Aelodau o'r angen i gwblhau ceisiadau yn gywir, eglur a chyflawn fel bod modd talu lwfans teithio a chynhaliaeth iddynt.**
- **Dylid sicrhau fod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal ar fanylion y ceisiadau er mwyn sicrhau nad oes camgymeriadau.**
- **Dylid ychwanegu cymal yn y "Canllawiau ar Lwfansau Aelodau" ar hawlio lwfansau teithio a chynhaliaeth ar gyfer cyfarfodydd mewnol anffurfiol.**
- **Dylid sicrhau bod ceisiadau treuliau Aelodau yn cael eu gwirio i daflenni presenoldeb cyn belled ag y bo modd.**
- **Dylid sicrhau fod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal ar dreuliau cynhaliaeth er mwyn sicrhau y gwneir y taliadau cywir.**
- **Dylid sicrhau fod gwiriadau priodol yn cael eu gwneud ar dderbynebau a thocynnau cyn mewnbynnu'r symiau i system Puma.**
- **Dylid atgoffa Aelodau o'r gofyn i gyflwyno ceisiadau yn fisol a phwysleisio iddynt na fydd ceisiadau sy'n hŷn na deufis yn cael eu talu heb ganiatâd arbennig.**
- **Dylai bod trefniadau mewn lle i sicrhau fod cyn-Aelodau yn dychwelyd unrhyw gyfarpar T.G. a Ch. i'r Cyngor.**
- **Dylid sicrhau fod bob Aelod yn defnyddio system e-bost y Cyngor ar gyfer busnes y Cyngor.**
- **Dylid sicrhau bod cyfrifon cyn-Aelodau wedi eu hanablu.**

## RHEOLI TRWYDDEDAU MEDDALWEDD - CORFFORAETHOL
### Gofal Cwsmer

Pwrpas yr Archwiliad
Gwerthuso'r rheolaethau mewn lle ar gyfer rheoli cofnodion trwyddedau meddalwedd.

Sgôp yr Archwiliad
'Roedd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o reolaethau dros osod meddalwedd ar gyfrifiaduron yr Awdurdod ynghyd â'r rheolaethau i gofnodi a chynnal manylion trwyddedau ar gyfer meddalwedd sydd wedi ei osod, ac i adnabod meddalwedd sydd heb ei drwyddedu.

Prif Ddarganfyddiadau
Er fod y rheolaethau mewn lle ar gyfer cynnal cofnodion yn eithaf anffurfiol, bu archwiliad diweddar gan Microsoft ddangos bod cydymffurfiad o lefel uchel gyda trwyddedau meddalwedd. Fodd bynnag, 'roedd y gwaith paratoi o gasglu'r manylion ar gyfer yr Adolygiad yn sylweddol, oherwydd fod angen cofnodi manylion o ddogfennau papur ar ffurf electroneg. Ers yr amser yma, nid yw'r cofnodion wedi cael eu diweddaru. Yn ychwanegol i hyn, nid oes cofnodion wedi eu cynnal ar gyfer cynnyrch sydd ddim gan Microsoft. Er mwyn creu trefn fel bod cofnodion trwyddedau yn cael eu cynnal a'i gwirio yn rheolaidd, byddai yn fuddiol dynodi swyddog gyda'r cyfrifoldeb penodol dros hyn.

Ers nifer o flynyddoedd, mae defnyddwyr wedi bod gyda hawliau gweinyddol dros eu cyfrifiaduron sydd wedi rhoi'r gallu iddynt osod unrhyw feddalwedd arnynt fel y byddent yn dymuno. Disgwylir bod polisi byrddau gwaith yn cael ei weithredu yn ystod 2009/10 fydd yn diddymu'r hawliau yma ynghyd â cloi mynediad ar y gyrwyr disg. Y canlyniad disgwyliedig yw na fydd unrhyw feddalwedd yn cael ei osod heb ymwybyddiaeth na cymorth yr Uned TG a Ch.
Mae'r Uned TG a Ch wedi meddiannu teclyn rheoli cyfluniadau sydd â'r gallu i gasglu manylion caledwedd a meddalwedd. Mae angen cyplysu'r manylion sydd yn cael ei gasglu gyda cofnodion trwyddedau.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol ar reolaeth trwyddedau meddalwedd gan fod rheolaethau mewn lle a bod cydymffurfiad wedi ei arddangos mewn archwiliad diweddar gan gwmni Microsoft; fodd bynnag mae agweddau sydd angen eu gwella. Mae'r prif argymhellion yn y Cynllun Gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Cyngor ystyried dyrannu'r cyfrifoldeb am drwyddedau meddalwedd i un unigolyn. Dylai'r unigolyn gyd-drefnu'r gwaith o gofnodi archebion a cynnal adolygiadau meddalwedd.**
- **Dylai'r Uned TG a Ch ymchwilio:**
  - **Os oes modd awtomeiddio'r mewnbwn o gofnodion archebion meddalwedd i TopDesk gan ddefnyddio'r system pwrcasu electroneg.**
  - **Os oes modd adeiladu cyswllt rhwng cofnodion TopDesk a'r data sydd yn cael ei gynhyrchu gan system rheoli cyfluniad.**

# RHANNU GWYBODAETH
## Gofal Cwsmer

Pwrpas yr Archwiliad

Pwrpas yr archwiliad oedd adolygu'r trefniadau mewn lle ar gyfer rhannu gwybodaeth, boed hynny yn fewnol (h.y. rhwng unedau neu sefydliadau'r Cyngor) neu yn allanol (h.y. gydag awdurdodau neu sefydliadau eraill).

Sgôp yr Archwiliad

Aseswyd sefyllfa'r Cyngor mewn perthynas â rhannu gwybodaeth drwy adolygu'r trefniadau mewn lle mewn unedau busnes penodol sydd yn cadw'r data-basau mwyaf o wybodaeth sensitif, gan eu cymharu gyda'r ymarferion gorau sydd wedi eu sefydlu yn y maes gan gyrff nodedig. Rhoddwyd sylw penodol i'r unedau sydd yn prosesu data personol gan mai methiannau yn y meysydd yma fyddai yn achosi'r niwed mwyaf i'r unigolion, i'r staff cyfrifol (gan y byddent yn gallu gwynebu achos troseddol neu sifil personol) ac enw da y Cyngor. Fe edrychwyd ar drefniadau unedau eraill sydd yn rhannu data fel rhan o'u gwaith er mwyn sefydlu pa gamau sydd mewn lle. Yn ogystal, adolygwyd y canllawiau, polisïau a'r hyfforddiant sydd wedi eu darparu i staff, ynghyd â phrotocolau a chytundebau sydd wedi eu sefydlu rhwng y Cyngor a sefydliadau eraill ar gyfer rhannu gwybodaeth. Nid oedd y gwaith yn rhoi sylw i'r holl ddulliau mewn perthynas a cholli data (e.e. gweithio oddi-ar-safle neu'r defnydd o ddisgiau symudol).

Prif Ddarganfyddiadau

Yn ystod yr archwiliad, gwelwyd llawer o enghreifftiau o ymarfer da mewn perthynas â rhannu gwybodaeth, ond nodwyd y pwyntiau canlynol sydd angen sylw:

- Mae angen rhoi sylw i'r wybodaeth sydd yn cael ei anfon drwy wasanaeth post cyhoeddus, gan sicrhau mai'r lleiafrif o wybodaeth i'r pwrpas penodol sydd yn cael ei anfon yn y modd yma. Gwelwyd achosion o wybodaeth sensitif a personol yn cael ei anfon drwy'r gwasanaeth post lle, ym marn yr archwilwyr, nid oes angen i'r Cyngor ddarostwng ei hun a'r unigolion i'r risgiau petai'r dogfennau yn cael eu colli.
- Mae angen adolygu rhai ffurflenni casglu gwybodaeth er mwyn datgelu os oes rhybudd yn cael eu cynnwys arnynt bod modd i'r Cyngor rannu y wybodaeth i bwrpasau penodol.
- Oherwydd yr angen i sefydlu arweiniad lefel uchel priodol ar gyfer mesurau a phenderfyniadau mewn perthynas â rhannu gwybodaeth, mae angen adolygu anghenion hyfforddiant uwch swyddogion yn y maes yma.
- Fel rhan o gynllun y Cyngor i ymuno â rhwydwaith y Llywodraeth ar gyfer rhannu gwybodaeth, mae angen sicrhau fod y staff fydd yn ei ddefnyddio yn ymwybodol o'r gofynion mewn perthynas â marcio dogfennau (yn 'gyfyngiedig' neu 'cyfrinachol') a sut i drin y dogfennau hynny yn y modd priodol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn y maes o rannu gwybodaeth gan fod rheolaethau mewn lle. Nodwyd ambell faes sydd angen sylw. Mae'r argymhellion o fewn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylid adolygu dogfennaeth berthnasol y Cyngor ar gyfer casglu data gan ystyried os oes cymalau clir wedi eu cynnwys arnynt yn nodi y gallai'r wybodaeth personol a gesglir gael ei rannu gyda sefydliadau eraill i bwrpasau teilwng, a dylid addasu unrhyw ddogfennaeth berthnasol sydd yn fyr o ddatganiad o'r fath.**
- **Dylid asesu'r angen am hyfforddiant ar gyfer uwch swyddogion yn y maes yn ymwneud â darparu arweiniad mewn perthynas â rhannu gwybodaeth gan**

**ystyried creu cwrs newydd neu addasu cynnwys cwrs presennol (e.e. diogelu data) os yw hynny yn briodol.**

- **Er mwyn cydsynio gyda gofynion CoCo i fod yn rhan o'r GCSx ac i gydymffurfio â safonnau ISO27001, dylai'r Cyngor sefydlu trefn ar gyfer marcio dogfennau yn briodol (h.y. yn 'gyfyngedig' neu yn 'gyfrinachol' a.y.b.), a dylid gallu arddangos bod y gwahanol gategorïau o ddogfennau yn cael eu trin yn y modd priodol.**
- **Dylid asesu natur y dogfennau sydd yn cael eu hanfon drwy'r gwasanaeth post cyhoeddus gan fantoli y risg o golli'r data yn erbyn y costau o sefydlu trefn o drosglwyddo gwybodaeth mewn dull mwy diogel.**
- **Wrth rannu gwybodaeth gydag eraill, dylid anfon y lleiafrif o wybodaeth sydd yn angenrheidiol i'r pwrpas dynodedig.**


Llyfryddiaeth

Adroddiad "Data Sharing Review" gan Richard Thomas a Mark Walport (Gorffennaf 2008)

Adroddiad "Review of information security at HM Revenue and Customs" gan Kieran Pointer (Mehefin 2008)

Adroddiad "Data Handling Procedures in Government" gan Gus O'Donnell (Mehefin 2008)

# RHEOLI TRWYDDEDAU MEDDALWEDD – YSGOLION
## Addysg

Pwrpas yr Archwiliad

Gwerthuso'r rheolaethau sydd yn eu lle o ran rheoli cofnodion sy'n ymwneud â thrwyddedau meddalwedd yn ysgolion Gwynedd.

Sgôp yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r rheolaethau sy'n ymwneud â defnyddio meddalwedd ar weithfannau'r Awdurdod, ynghyd â'r rheolaethau i gofnodi a chynnal a chadw manylion trwyddedau meddalwedd sydd wedi'u gosod ar gyfrifiadur a darganfod meddalwedd heb ei drwyddedu. Roedd yr archwiliad yn cynnwys trafodaeth gyda swyddog TG yn Cynnal, ynghyd â chyflwyno holiadur i bob ysgol yn cyfeirio at sut yr oeddynt yn rheoli cofnodion trwyddedau meddalwedd.

Prif Ddarganfyddiadau

Dylid nodi mai dim ond nifer gymharol fechan o ysgolion a ymatebodd i gais yr archwiliwr am wybodaeth o ran sut yr oeddynt yn rheoli trwyddedau meddalwedd, fodd bynnag gwelwyd patrwm eglur yn yr ymatebion a dderbyniwyd. Er y bu i rai ysgolion honni fod ganddynt gofnodion cyflawn a'u bod yn cydymffurfio'n llawn â chytundebau trwyddedau meddalwedd, nodai'r rhan fwyaf o ymatebion a gafwyd nad oedd yr ysgol yn cadw ei chofnodion ei hun ynghylch trwyddedau meddalwedd, gan nodi mai Cynnal oedd yn gyfrifol am bob pryniant, ac felly, mai nhw oedd yn gyfrifol am gynnal a chadw cofnodion yr ysgol. Ni honnodd yr un o'r naw ysgol gynradd a ymatebodd fod ganddynt gofnodion trwyddedau meddalwedd y gellid eu harchwilio. O ran TG, mae Cynnal yn gorff caffael a chefnogi i ysgolion, ac er fod ganddynt rôl i'w chwarae er mwyn cynorthwyo ysgolion i gynnal a chadw eu cofnodion, yn amodol ar delerau'r cytundeb lefel gwasanaeth, nid ydynt yn gyfrifol am gynnal a chadw eu cofnodion. Yn ogystal, mae gan staff mewn ysgolion fynediad gweinyddol at y gweithfannau ac felly, mae modd iddynt osod meddalwedd ar y peiriannau fel y mynnont, yn cynnwys, o bosib, meddalwedd heb ei drwyddedu. Er na ellir rheoli hyn, byddai angen gweithredu rheolaethau arolygu er mwyn adnabod y meddalwedd sydd wedi'i osod ar gyfrifiaduron mewn ysgolion. Mae meddalwedd cymharol rhad ar gael er mwyn sganio cyfrifiaduron a chynhyrchu ciplun o'r holl feddalwedd sydd wedi'i osod ar y peiriant ar y pryd. Gellid defnyddio'r wybodaeth hon fel gwaelodlin er mwyn cymharu gyda'r wybodaeth trwyddedau meddalwedd sydd ar gael, a rhoi asesiad rhesymol o statws yr ysgol o ran cydymffurfiaeth. Mae angen rhoi arweiniad, cyngor ac anghenion arferion da i staff mewn ysgolion fel nad yw eu gweithredoedd yn rhoi eu hysgol mewn sefyllfa fregus o ran diffyg cydymffurfio.

Mae'r Uned Archwilio Mewnol wedi paratoi rhestr o egwyddorion, sydd wedi'u cyhoeddi fel atodiad i'r adroddiad hwn, a deellir fod y Gwasanaeth Ysgolion yn bwriadu diwygio cynnwys y rhestr er mwyn cynhyrchu cyfres o egwyddorion model i'w mabwysiadu gan bob ysgol. Bwriedir glynu at yr egwyddorion a fabwysiadir, er mwyn sicrhau fod pob meddalwedd sy'n cael ei osod ar ôl y dyddiad mabwysiadu yn unol â'r trwyddedau priodol. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei wneud gyda chydweithrediad Cynnal. Dylid nodi na fydd y cynllun gweithredu arfaethedig hwn yn lliniaru'r risgiau sydd ynghlwm â meddalwedd heb ei drwyddedu a allai fod wedi'i osod cyn i'r egwyddorion newydd hyn gael eu drafftio a'u mabwysiadu.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Mae'r archwiliad o'r farn na ellir rhoi sicrwydd llawn ynghylch y dull o reoli cofnodion trwyddedau meddalwedd ym mhob ysgol, na sicrwydd o gydymffurfio'n llwyr â'r cymalau mewn trwyddedau meddalwedd. Mae'r prif argymhellion yn y Cynllun Gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylid anfon canllawiau Egwyddorion Trwyddedau Meddalwedd ac Arferion Da (megis y ddogfen sydd wedi'i hatodi fel Atodiad A yn yr adroddiad archwilio hwn) at y staff sy'n gyfrifol am TG ym mhob ysgol, fel bod eu cyfrifoldebau'n glir ac fel bod diffygion yn cael eu cywiro cyn i sefydliad gysylltu ynghylch archwiliad meddalwedd.**
- **Dylid nodi'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau arferion da o ran rheoli trwyddedau meddalwedd, a gyhoeddwyd gan yr Uned Archwilio Mewnol, a dylid glynu atynt.**
- **Dylid dogfennu a chadw manylion trwyddedau meddalwedd er dibenion cofnodion yr ysgol ar yr adeg pan fydd y meddalwedd yn cael ei osod gan Cynnal.**
- **Pan na fydd ysgol wedi cadw cofnod o feddalwedd a osodwyd yn y gorffennol, neu ar gyfer y rhai sy'n dymuno gwirio eu cofnodion, dylid prynu cymhwysiad rhad a'i ddefnyddio i sganio a chreu ciplun cynhwysfawr o'r meddalwedd sydd wedi'i osod ar bob un o gyfrifiaduron yr ysgol.**

# RHEOLAETH DEFNYDDWYR A CHYMWYSIADAU CITRIX
## Gofal Cwsmer

Pwrpas yr Archwiliad
I werthuso'r rheolaethau mewn lle i reoli mynediad at y cymwysiadau o fewn cyfrifiaduron serferau Citrix.

Sgôp yr Archwiliad
'Roedd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o gonsol Citrix a'r cyfleusterau sydd ar gael i weinyddwyr ynghyd â profion ar ddefnyddwyr a'r gosodiadau cyfredol.

Prif Ddarganfyddiadau
Ar y cyfan, darganfyddodd yr archwiliad fod rheolaethau diogelwch o safon uchel gyda llawer haen o feini prawf y mae angen i ddefnyddiwr fodloni cyn cael mynediad at y cymwysiadau o fewn serferau Citrix, gan gynnwys modd dilysu dau ffactor (enw a chyfrinair arferol ynghyd â chôd penodol sydd yn cael ei gynhyrchu gan ddyfais arbennig), mae mynediad yn cael ei reoli drwy aelodaeth grŵp, a mae gwiriadau am feddalwedd gwrth-firws cyfredol ar galedwedd y defnyddiwr.
Mae materion bach wedi codi yn ystod yr archwiliad sydd ddim yn gosod risgiau uchel, ond maent angen sylw gan y Gweinyddwyr Citrix.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol yn y rheolaeth o Citrix gan fod rheolaethau mewn lle, fodd bynnag, mae materion sydd angen eu gwella. Mae'r prif argymhellion yn y Cynllun Gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylai gweinyddwyr Citrix ystyried monitro adnoddau cynghori mewn materion diogelwch am unrhyw wendidau heb eu cyweirio ar gyfer meddalwedd y serfer 'presentation'.**
- **Dylid lleihau'r nifer o gyfrifon gweinyddol Citrix i un pob defnyddiwr.**
- **Dylai'r Uned TG adolygu'r rhestr o ddalwyr dyfeisiau diogelwch sydd wedi ei ddarparu gan Archwilio Mewnol, canslo unrhyw gyfrifon nad ydynt eu hangen a meddiannu'r dyfeisiau oddi wrth y defnyddwyr lle yn briodol.**

# GRANTIAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod yr ymgeisydd yn cyflwyno ffurflen gais safonol, bod yr adran yn rhoi chwarae teg i bob cais wrth ei werthuso, mai ond prosiect dilys sy'n cael ei ariannu, bod llythyr yn cael ei anfon allan i'r ymgeisydd yn manylu amodau'r grant, bod y prosiect yn cydymffurfio gyda amodau'r grant, bod y grant wedi ei gyfrifo'n gywir, bod trefn gwirio ac ardystio cywir a bod y grant yn cael ei dalu, bod y wybodaeth yn gywir yn y Cyfriflyfr Ariannol, a bod trefniadau monitro mewn lle.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwiriwyd ceisiadau a thaliadau yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r flwyddyn ariannol cyflawn diwethaf.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod enghreifftiau cryf o ymarfer da o fewn gweinyddiaeth grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, gwelwyd bod diffygion yn bodoli mewn rhai mannau lle'r oedd angen tynhau ar y trefniadau. Darganfuwyd nad oedd rhai camau wedi eu dilyn wrth brosesu'r taliadau grant ac nad oedd gan Gwasanaethau Cymdeithasol Cytundeb Lefel Gwasanaeth mewn lle gyda'r darparwyr gwasanaeth.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Rheolwr Gwasanaeth Anabledd Dysgu a Chorfforol hysbysu'r Gweithwyr Cymdeithasol a'r Arweinyddion Tîm o'r pwysigrwydd i rannu gwybodaeth h.y. newidiadau mewn tenantiaeth, costau, cyfraddau talu a.y.b. gyda'r swyddog sydd yn gyfrifol am brosesu taliadau.**
- **Dylai'r blwch "Derbyniwyd" ar y slip codio TR252 gael ei arwyddo gan y swyddog sydd yn gallu cadarnhau bod y gwasanaeth a ddarparwyd wedi cymryd lle.**
- **Dylai'r taliadau gael eu hardystio gan reolwr y gyllideb.**
- **Dylai bod gan Wasanaethau Cymdeithasol Gytundeb Lefel Gwasanaeth mewn lle gyda phob darparwr gwasanaeth.**
- **Dylid sicrhau bod y Rheolwr Iechyd Meddwl a Therapi yn arwyddo'r blwch "Derbyniwyd" ar y TR252 a bod swyddog ardystiedig arall yn arwyddo'r blwch "Ardystiwyd i'w Dalu".**
- **Dylid sicrhau bod swyddogion yn defnyddio'r côd cywir wrth brosesu taliadau i Gredydwyr.**

**RHEOLAETH CYTUNDEB PRYDAU YN Y CARTREF**
**Gwasanaethau Cymdeithasol**

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod rheolaeth mewnol digonol o'r Cytundeb rhwng y darparwr a Cyngor Gwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio'r trefniadau presennol gan roi sylw i gynnwys y cytundeb, taliadau i'r cyflenwr a safon y gwasanaeth a derbyniwyd.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion Archwilio ar 37 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau da yn bodoli mewn 23 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn drefn o weinyddu taliadau'r gytundeb prydau yn y cartef, gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle. Mae'r prif argymhellion a ddynodir yn y cynllun gweithredu ac angen sylw buan fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod sefyllfa colledion yn cael ei drafod y tro nesaf mae cytundeb yn cael ei gytuno er mwyn lleihau'r risg o golled ariannol i'r Awdurdod.**
- **Dylid ychwanegu cymal i'r cytundeb yn nodi sut mae elw neu golledion yn cael ei ddyrannu.**
- **Angen sicrhau bod gan y darparwr ganllawiau i dderbyn a thrin â chwynion.**
- **Angen sicrhau bod gan y darparwr warchodaeth yswiriant addas er mwyn darparu'r gwasanaeth.**
- **Dylai sicrhau fod yr adroddiad misol ar y gyllideb yn cael ei wirio yn fanwl i sicrhau fod y wybodaeth yn gywir.**
- **Dylid holi'r darparwr am restr cyfeiriadau'r 'failed deliveries' er mwyn ymchwilio'r mater ymhellach.**
- **Dylid cadw cofnod misol o bwy sydd ag offer paratoi bwyd, er mwyn gallu gwirio'r anfoneb a sicrhau fod taliadau cywir yn cael ei wneud.**
- **Dylid sicrhau fod taliadau wedi ei gwneud o fewn mis o ddyddiad derbyn yr anfoneb yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.**
- **Dylid gwirio'r rhestrau wythnosol i sicrhau fod yr anfonebau yn cysoni gyda'r wybodaeth yma.**
- **Dylid cysoni'r wybodaeth ar yr anfoneb gyda'r cofnod sydd gan y Cyngor o bwy sydd yn derbyn offer.**
- **Dylid sicrhau fod trefn mewn lle i fesur gwerth y gwasanaeth a dderbyniwyd.**
- **Dylid ystyried dulliau gwahanol o hyrwyddo'r cynllun yn effeithiol.**
- **Dylid sicrhau fod y Cyngor yn derbyn cadarnhad gan y darparwr fod gwiriad heddlu wedi ei gyflawni ar bob aelod o staff y cyflenwr sydd yn gweithio gydag unigolion bregus.**
- **Dylid sicrhau fod y Cyngor yn derbyn cadarnhad fod o leiaf dau eirda derbyniol wedi eu derbyn ar bob aelod o staff sydd yn gweithio gyda'r unigolion bregus.**

## COFRESTR ANABLEDD DYSGU - RHEOLAETHAU SICRHAU CYFLAWNDER
### Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod y Gofrestr Anabledd Dysgu yn gyflawn, cywir a chyfredol. Rhoddir sylw i'r amcanion rheolaeth canlynol:

- Sicrhau bod pawb sy'n derbyn gwasanaeth yn ymwneud ag anabledd dysgu ar y rhestr yn y system RAISE,
- Bod gwybodaeth gywir a chyfredol ar bob client o fewn RAISE,
- Sicrhau bod y system cyfrifiaduron yn gweithredu yn unol â dulliau gweithredol sydd wedi eu cymeradwyo,
- Mae'r system yn cael ei weithredu yn unol â'r Ddeddf Amddiffyn Data 1998.
- Mae newidiadau i'r system a data sy'n cael ei newid/fewnbynnu wedi ei awdurdodi.
- Mae trywydd drwy'r system o ddata yn cael ei fewnbynnu i'r man gorffennol ac i'r gwrthwyneb.
- Mae mynediad i ddata wedi ei gyfyngu i swyddogion awdurdodedig.
- Mae cynhyrchiad, casgliad a dargadwad o allbwn cyfrifiadurol yn cael ei reoli.
- Mae'r systemau a data yn gallu cael ei ail-lunio petai trychineb yn digwydd.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio sampl o gleientiaid sydd wedi eu cyfeirio at y gwasanaeth drwy ganolbwyntio ar y system RAISE.

Prif Ddarganfyddiadau

Yn ystod yr archwiliad yma gwelwyd amryw o enghreifftiau o ymarfer da. Yn ogystal, darganfuwyd enghreifftiau lle nad oedd rheolaethau priodol mewn lle, megis bod dim rhestr swyddogol sy'n annibynnol o RAISE o'r Gofrestr. O wirio'r rhestrau answyddogol gwelwyd nad oes dulliau o gysoni rhwng y rhestrau. Yn ogystal mae angen i staff fod yn ymwybodol o'r Ddeddf Diogelu Data 1998 a mynychu'r cwrs perthnasol. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod y Gofrestr ar y system RAISE yn gyflawn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn y trefniadau i sicrhau cyflawnder y gofrestr anabledd dysgu gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod pob cleient ar y system RAISE.**
- **Dylid bod dull ffurfiol o fonitro derbyn ffurflenni fel y gellir dilyn i fyny ar rai coll yn brydlon.**
- **Mae angen i'r Gofrestr Anabledd Dysgu fod yn gyfredol felly rhaid sicrhau bod achosion yn cael eu cau yn brydlon a bod y swyddogion perthnasol yn cael gwybod yn brydlon fel y gallent wneud hynny. Dylai bod ffurflen sy'n gyson trwy Wynedd sy'n cynnwys manylion cau'r cleientiaid lle mae'n bosib i'r swyddog sy'n gyfrifol am gau'r manylion ei lofnodi a'i ddyddio i gadarnhau ei fod wedi gwneud hynny. Bydd hyn yn amlygu unrhyw achos sydd ddim wedi ei gau ar y system RAISE.**
- **Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y swyddogion sydd yn y Tîm Anabledd Dysgu yn cael hyfforddiant ar Ddeddf Diogelu Data 1998 a bod cofnod o'r hyfforddiant yn cael ei gadw.**
- **Awgrymir bod y copïau wrth gefn llawn yn cael eu rhoi mewn sêff gwrth-dân.**

## ANABLEDD CORFF - CYTUNDEB GWASANAETH CYD-STORFA
### Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod y Gwasanaeth Cyd-Storfa yn cydymffurfio â'r gofyn yn y Cytundeb Gwasanaeth Cyd-Storfa drwy ganolbwyntio ar yr amcanion rheolaethol canlynol:

- Bod cytundeb ffurfiol rhwng y Cyngor a'r Awdurdod Iechyd.
- Bod rheolaeth gyllidebol ddigonol.
- Bod gweithrediad yn unol â gofynion y cytundeb.
- Bod cofnod trywydd o leoliad pob offer gan y gwasanaeth, a threfn o ddychwelyd offer pan mae gwasanaeth yn terfynu ac o dderbyn credyd amdano.
- Bod cymharu ar brisiau'r Cyd-Storfa gyda chyflenwyr eraill lle'n bosibl.
- Bod trefn archebu, cadarnhau derbyn yr offer a gwirio anfoneb yr Awdurdod Iechyd yn bodoli.
- Sicrhau fod trefniadau diogelwch i gleientiaid yn bodoli.

Cwmpas yr Archwiliad
Edrych ar y cytundeb a sicrhau bod y gweithdrefnau yn unol â'r gofynion yn ogystal ag edrych ar drefniadau archebu, prisio a chadw trywydd ar leoliad offer.

Prif Ddarganfyddiadau
O adolygu'r y rheolaethau sy'n bodoli, gwelwyd bod enghreifftiau o ymarfer da. Ond yn ogystal, gwelwyd lle nad oedd enghreifftiau cystal. Yr amlycaf o'r rhain yw'r angen i allu gwirio anfonebau i sicrhau eu bod yn gywir cyn eu talu a'r pwysigrwydd o dderbyn rhestr sy'n manylu ar yr archebion unigol i alluogi'r swyddogion perthnasol i wneud hyn. Mae hefyd angen cael y cyflenwr i wybyddu'r Cyngor pan maent yn dosbarthu yn syth i gartref y cleient a phan mae'r cleient yn trefnu'n uniongyrchol gyda'r cyflenwr i ddychwelyd yr offer.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth y gytundeb cyd-storfa gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod aelod o'r Tîm Therapi Galwedigaethol ar gael i dderbyn yr offer pan mae'n cael ei ddosbarthu i'r storfa.**
- **Dylid bod llyfr stoc gyfredol ym mhob storfa sy'n rhestru'r offer ac sydd gyda blwch fel bod y swyddogion yn gallu llofnodi a dyddio i gadarnhau eu bod yn mynd â'r offer oddi yno ac yn nodi i le mae'n mynd.**
- **Dylid holi'r cyflenwr i yrru copi o'r 'issue note' i'r Cyngor i ddangos eu bod yn casglu neu'n dosbarthu offer yn syth o gartrefi'r cleientiaid.**
- **Dylai swyddog perthnasol sicrhau bod y cyflenwr yn hysbysu'r Cyngor pan mae cleient yn dychwelyd offer yn syth yn ôl i Fryn y Neuadd.**
- **Dylid sicrhau bod y Cyngor yn derbyn y rhestr sy'n manylu ar yr eitemau a ddosbarthwyd ac a ddychwelwyd yn fisol.**
- **O bryd i'w gilydd dylid cymharu prisiau'r offer gan gyflenwyr eraill (lle mae hynny'n bosib) er mwyn sicrhau bod y pris gan y Cyd-Storfa yn gystadleuol.**
- **Ni ddylid pasio anfoneb i'w thalu nes fydd hi'n bosib gwirio'r pris yn erbyn y rhestr sy'n manylu ar yr offer sydd wedi eu benthyg a'u dychwelyd, a bod hwn wedi ei wirio yn erbyn yr archebion.**

# LLEOLIADAU PLANT ALL SIROL
## Gwasanaethau Cymdeithasol

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu'r gwasanaeth lleoliadau plant all sirol.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Mae'r archwiliad yn cwmpasu'r agweddau canlynol:

- Fod trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer asesu plant.
- Fod y plant yn cael eu lleoli mewn lleoliadau addas.
- Fod trefniadau adolygu priodol mewn lle.
- Fod trefn briodol o archebu, derbyn a thalu am nwyddau a gwasanaethau.
- Fod rheolaethau gyllidebol digonol yn bodoli.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Cynhaliwyd profion archwilio ar 21 o feysydd rheolaeth mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau da yn bodoli mewn 17 o'r meysydd hyn. Mae gorwariant sylweddol pob blwyddyn ar y gyllideb Lleoliadau All Sirol. Er hynny, prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd bod pob cais am leoliad y tu allan i Wynedd a archwiliwyd wedi cael eu cyflwyno i'r Panel Comisiynu Lleoliadau a bod gofynion statudol yn cael eu gweithredu. Y prif wendid oedd diffyg cyflawnder yr wybodaeth ar y system RAISE.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth y gwasanaeth lleoliadau plant all sirol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod pob ffurflen ymweliad yn cael ei llofnodi gan yr Arweinydd Tîm perthnasol fel cadarnhad eu bod wedi cadarnhau cofnod yr ymweliad.**
- **Dylid sicrhau bod manylion pob adolygiad statudol yn cael ei ffeilio ar ffeil y plentyn.**
- **Dylid symud ymlaen gyda threfniadau i fewnosod adolygiadau statudol ar y system 'RAISE'.**
- **Dylid sicrhau fod anfonebau yn cael eu talu o fewn mis i'r dyddiad eu derbyn er mwyn osgoi'r Cyngor rhag gorfod talu llog ar daliadau hwyr.**

# DEFNYDD O ISGONTRACTWYR, UNED DARPARU PRIFFYRDD
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod yr Uned Darparu Priffyrdd yn penodi isgontractwyr yn unol â Rheolau Gweithdrefn Cyngor Gwynedd ac ymarfer da.

Cwmpas yr Archwiliad
Cwmpas yr archwiliad oedd asesu'r drefn o ddefnyddio isgontractwyr gan yr Uned Darparu Priffyrdd gan adolygu'r ffeiliau perthnasol i sicrhau bod tystiolaeth yn bodoli er mwyn gallu arddangos bod y gwaith wedi ei osod yn unol â'r Rheoliadau.

Prif Ddarganfyddiadau
Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd nad oedd trefniadau mewn lle gan yr Uned Darparu Priffyrdd i ddethol isgontractwyr yn unol ag ymarfer da'r diwydiant adeiladwaith na Rheolau Gweithdrefn Contractau Cyngor Gwynedd.

Gwelwyd bod yr Uned Darparu Priffyrdd yn ceisio am waith hyd yn oed os nad oedd ganddynt y capasiti i gwblhau'r gwaith gyda'r gweithlu mewnol ac yna rhoi'r gwaith i isgontractwyr. Nid yw hyn yn anarferol yn y diwydiant gan fod cwmnïau 'mawr' sy'n ennill tendr yn aml yn is-gontractio'r gwaith i gwmnïau lleol. Fodd bynnag, gwelwyd fod gwendidau arwyddocaol yn y trefniadau i gosod y gwaith yma i isgontractwyr preifat.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau'r Uned Darparu Priffyrdd, Cyfadran yr Amgylchedd wrth ddefnyddio isgontractwyr. Mae'r prif argymhellion yn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Uned Darparu Priffyrdd unai sefydlu rhestr gymeradwy o gontractwyr yn fewnol neu fabwysiadu Constructionline yn ffurfiol fel y rhestr gymeradwy.**
- **Dylid cydymffurfio gyda Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor wrth osod gwaith i isgontractwyr.**

# "SIWRNE SAFF"
## Rheoleiddio

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr Archwiliad yw adolygu trefniadau gweinyddu, rheoli a chyllido prosiect "Siwrne Saff".

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad yw sicrhau bod rheolaethau yn eu lle gan yr Uned Gofal Stryd a Thraffig Integredig gogyfer rheoli cynllun "Siwrne Saff" yn effeithiol.

Prif Ddarganfyddiadau

Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

- Achosion lle'r oedd taliadau wedi eu prosesu heb dderbyn yr anfoneb wreiddiol.
- Anfonebau yn cael eu cyfeirio at Swyddog penodol yn hytrach na Chyngor Gwynedd.
- Costau llawn am lwfans teithio'r Swyddog Ffyrdd Diogel - Siwrne Saff heb gael eu hadennill oddi wrth Gyngor Sir y Fflint oherwydd nad oedd y Swyddog yn hawlio treuliau'n brydlon.
- Nid oedd rhestr o leoliadau arwyddion rhyngweithiol yn gyfredol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Cynllunio a Thrafnidiaeth gogyfer rheoli cynllun Siwrne Saff. Mae'r prif argymhellion yn y cynllun gweithredu, ac angen sylw buan fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod anfonebau yn cael eu trosglwyddo i'r Adain Daliadau yn brydlon i gael eu talu. Disgwylir i wasanaethau a sefydliadau brosesu eu holl anfonebau o fewn pythefnos.**
- **Dylai'r Uned Gyllid Amgylchedd geisio adennill gweddill costau teithio'r Swyddog Ffyrdd Diogel – Siwrne Saff am y flwyddyn ariannol 2007/08 yn eu hawliad 2008/09 i Gyngor Sir y Fflint.**
- **Dylai'r Swyddog Ffyrdd Diogel - Siwrne Saff sicrhau ei fod yn hawlio unrhyw dreuliau yn ymwneud a'i swydd yn fisol.**

# INCWM FFIOEDD TRAFNIDIAETH
## Rheoleiddio

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod ffioedd a phrisiau Uned Gofal Stryd a Thraffig Integredig wedi eu gosod drwy fethodoleg sy'n hyrwyddo ymarfer da ac yn gyson â Pholisïau'r Cyngor, gan sicrhau bod yr incwm cywir yn cael ei gasglu oddi wrth gleientiaid allanol.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad yw trafod y broses o osod a mabwysiadu ffioedd a phrisiau gyda rheolwyr yr Uned a phrofi bod cleientiaid yn cael eu bilio gyda'r ffioedd cywir.

Prif Ddarganfyddiadau

Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

- Nid oedd derbynneb swyddogol yn cael ei roi er mwyn cydnabod arian;
- Nid oedd anfoneb ffurfiol yn cael ei godi er mwyn bilio'r client;
- Nid oedd yr incwm yn cael ei fancio yn rheolaidd; a
- Nid oedd Polisi Trwyddedu Dodrefn ar y Stryd yn cael ei ymlid.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Adran Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) gogyfer gosod ffioedd a phrisiau, yn ogystal â chasglu'r cyfansymiau cywir. Mae'r prif argymhellion fel a ganlyn:**

- **Dylid rhoi derbynneb er mwyn cydnabod yr incwm a dderbynnir am ymholiadau Pridiannau Tir.**
- **Dylid codi anfoneb ar gwmnïau nad sy'n talu arian o flaenllaw fel bod proses ffurfiol yn bodoli i olrhain unrhyw ddyledion.**
- **Dylid bancio incwm Prydiannau Tir o leiaf unwaith yr wythnos.**
- **Dylid ail-ymweld ynghyd â gosod cyllideb yn erbyn Polisi Trwyddedu Dodrefn ar y Stryd er mwyn ceisio ail-hyrwyddo rhinweddau'r Polisi o fewn Cyngor Gwynedd.**

## TRWYDDEDAU I OSOD ADEILADWAITH AR Y STRYD
**Rheoleiddio**

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod rheolaethau mewn lle gogyfer dosbarthu trwyddedau i osod adeiladwaith ar y stryd.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad yw adolygu rheolaeth a gweinyddiaeth ar gyfer prosesu ceisiadau am drwyddedau i osod adeiladwaith ar y stryd. Yn ogystal sicrhau bod trefniadau mewn lle er mwyn sicrhau fod y contractwyr yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded.

Prif Ddarganfyddiadau

Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

- Nid yw'r ffurflen gais am drwydded yn gorfodi'r contractwr i gofnodi'r manylion angenrheidiol.
- Diffyg sicrhad fod gan y contractwyr yswiriant cyfredol er mwyn cydymffurfio gyda'r drwydded.
- Diffyg sicrhad fod y contractwyr yn aelodau o gyrff masnachol cydnabyddedig.
- Y contractwyr ddim yn anfon manylion am gynllun y gwaith i mewn i'r Uned Gofal Stryd a Thraffig Integredig.
- Oediad cyn bod yr Archwilwyr Gwaith Strydoedd/Gorfodaeth Ffyrdd yn anfon y ffurflenni "Inspection of Scaffolding" i mewn i'r Uned.
- Sgaffaldau yn parhau i sefyll ar ôl dyddiad olaf y drwydded.
- Yr adeiladwaith ddim yn cydymffurfio ac amodau'r drwydded

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau ar gyfer prosesu ceisiadau a monitro trwyddedau i osod adeiladwaith ar y stryd gan yr Uned Gofal Stryd a Thraffig Integredig. Mae'r prif argymhellion yn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylai Uned Gofal Stryd a Thrafnidiaeth Integredig ail lunio ffurflen gais am drwydded er mwyn galluogi casglu data perthnasol ynglŷn â'r cwmni a'r adeiladwaith.**
- **Dylid sicrhau fod gan gontractwyr yswiriant cyfredol sy'n yswirio dros gyfnod y drwydded.**
- **Dylid sicrhau fod gan yr Uned dystiolaeth i gadarnhau fod y contractwyr/gweithwyr yn gymwys i godi sgaffaldau.**
- **Dylid sicrhau nad oes adeiladwaith yn sefyll ar ôl y dyddiad olaf y drwydded.**
- **Dylid sicrhau fod yr adeiladwaith yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded.**

# GORDALIAD LWFANSAU TEITHIO AELODAU

Bwriad yr Archwiliad

Ymchwilio i'r posibilrwydd fod y Cyngor wedi talu lwfansau teithio i aelodau ar y graddfeydd anghywir, sut bu i hynny ddigwydd, a beth oedd oblygiadau hynny, trwy ddilyn yr ohebiaeth a anfonwyd o fewn y Cyngor yn ogystal â'r trefniadau i hysbysu'r Uned Gyflogau o'r raddfa briodol i'w defnyddio.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yma yn edrych yn benodol ar y taliadau lwfansau teithio i aelodau'r Cyngor ers 1 Ebrill 2003. Nid oedd yn cwmpasu agweddau eraill, oedd eisioes wedi bod yn destun yr archwiliad arferol ar Dreuliau Aelodau oedd wedi ei gynnwys yng nghynllun Archwilio Mewnol 2008/09.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod swyddogion allweddol o fewn yr Uned Gyflogau wedi parhau i weithio am sawl blwyddyn ar gamsyniad fod lwfansau teithio aelodau yn newid ar y un graddfeydd â chostau teitiho swyddogion, yn hytrach na'n gyson â chynnwys y Cynllun Lwfansau lleol.

Nid yw'r cyfathrebu rhwng Gwasanaethau Aelodau (o fewn y cyn-Wasanaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd) a'r Uned Gyflogau (o fewn Cyllid) wedi gweithio yn effeithiol.

Ni roddwyd esboniad digonol i swyddogion yr Uned Gyflogau ar arwyddocad graddfeydd teithio Aelodau'r Cynulliad.

Ni weithredodd yr Uned Gyflogau yn unol â chynnwys ebost allweddol ym mis Mai 2006.

Nid oes awgrym fod unrhyw aelod etholedig wedi gweithredu'n amhriodol, gan mai'r milltiroedd a deithwyd sydd wedi eu nodi ar y ffurflenni hawliad – nid y gwerth ariannol.

**Barn yr Archwiliad**

**Mae holl aelodau'r Cyngor wedi bod yn derbyn lwfans teithio ar raddfa sy'n uwch na'r hyn sydd yn y Cynllun Lwfansau lleol ers 1 Ebrill 2003 – ac yn uwch na'r Rheoliadau cenedlaethol er 2005 yn ogystal – am fod yr Uned Gyflogau wedi bod yn gweithredu ar ddealldwriaeth anghywir fod graddfeydd lwfansau aelodau i amrywio yn flynyddol yn unol â graddfeydd teithio swyddogion. Gellir fod wedi cywiro hyn yn 2006, ond ni weithredwyd ar neges allweddol oedd yn hysbysu'r Uned o benderfyniad y Cyngor. Mae argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Mae angen gweithredu yn unol â threfniadau priodol i dderbyn y gordaliad yn ôl, gan sicrhau polisi a phroses theg a thryloyw.**
- **Dylid cytuno a mabwysiadu gweithdrefn o fewn yr awdurdod i wirio fod penderfyniadau pwyllgor yn treiddio i'r swyddogion sy'n gyfrifol am eu gweithredu, a sicrhau fod gweithrediad yn digwydd.**
- **O hyn ymlaen, mae angen llunio canllawiau eglur rhwng y swyddogion sydd â chyfrifoldeb am wasanaethau aelodau a'r Uned Gyflogau er mwyn sicrhau ymdriniaeth gywir o holl dreuliau aelodau.**